**HYSBYSIAD O ORCHYMYN LLWYBR CYHOEDDUS**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990, ADRAN 257**
**A PHARAGRAFF 1 ATODLEN 14**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**
**(DARGYFEIRIO LLWYBR TROED 17 PORTHCAWL)**
**DARGYFEIRIO LLWYBR CYHOEDDUS RHIF 1 2025**

Gwnaed y gorchymyn uchod ar 16/07/2025. Effaith y Gorchymyn fydd dargyfeirio'r rhan honno o Lwybr Troed Cyhoeddus 17 Porthcawl o bwynt (Cyfeirnod Grid SS 84097743), ac yn parhau i gyfeiriad y dwyrain am tua 52 metr i bwynt (Cyfeirnod Grid SS 84147743) mae'r llwybr wedyn yn parhau i gyfeiriad y gogledd-ogledd-ddwyrain am tua 8 metr hyd at bwynt (Cyfeirnod Grid SS 84147743) i linell sy'n rhedeg o bwynt (Cyfeirnod Grid SS 84097744) ac yn parhau i gyfeiriad cyffredinol y dwyrain am tua 10 metr hyd at bwynt (Cyfeirnod Grid SS 84107744) cyn parhau i gyfeiriad y de-ddwyrain am tua 8 metr hyd at bwynt (Cyfeirnod Grid SS 84107743), yna mae'r llwybr yn parhau i gyfeiriad cyffredinol y dwyrain am tua 34 metr hyd at bwynt (Cyfeirnod Grid SS 84147743) cyn troi a mynd i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am oddeutu 4 metr i bwynt (Cyfeirnod Grid SS 84147743), fel y dangosir ar fap y gorchymyn.

Mae copi o'r gorchymyn a map y gorchymyn wedi'u gosod a gellir eu gweld am ddim ym mhrif dderbynfa Swyddfeydd Dinesig Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn y cyfeiriad isod rhwng 8.30am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Iau a 8.30am i 4.30pm ar ddydd Gwener. Gellir cael copïau o'r Gorchymyn a'r map am ddim. Fel arall, mae copi o'r gorchymyn a'r map hefyd ar gael drwy gysylltu â:rightsofway@bridgend.gov.uk / ffôn: 01656 642537) neu gellir eu harchwilio ar-lein yn: https://www.penybontarogwr.gov.uk/cyngor/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/.

Gellir anfon neu gyflwyno unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau am y gorchymyn yn ysgrifenedig at: K Watson, Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol yn y cyfeiriad isod heb fod yn hwyrach na hwyrach 27/08/2025. Nodwch ar ba seiliau y cânt eu gwneud. Sylwer y gall y Cyngor ystyried yr holl sylwadau sy'n dod i law yn gyhoeddus ac y gallai sylwedd unrhyw sylw ynghyd ag enw a chyfeiriad y person sy'n ei wneud) fod ar gael i'w harchwilio'n gyhoeddus.

Os na ddaw sylwadau neu wrthwynebiadau i law, neu os gwneir rhai a dynnir yn ôl gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gadarnhau'r gorchymyn fel gorchymyn nas gwrthwynebwyd. Os anfonir y gorchymyn at Weinidogion Cymru i'w gadarnhau, caiff unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau na chawsant eu tynnu'n ôl eu hanfon gyda'r gorchymyn.

Os cewch unrhyw anhawster wrth ymateb yn ysgrifenedig neu os oes angen yr hysbysiad hwn arnoch mewn fformat arall, er enghraifft, print mwy, sain, braille neu ffacs, cysylltwch â'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol yn y cyfeiriad isod neu drwy ffonio'r Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 01656 643643.Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

**DYDDIAD:24/07/2025**

K Watson, Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB.
K Watson, Chief Officer Legal and Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB.

HIG001-1132